# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

**RHAN 3**

DYLETSWYDD GONESTRWYDD

*Gofynion gweithdrefnol a gofynion eraill*

## 6 Cyflenwi a chrynhoi adroddiad o dan adran 5

(1) Rhaid i ddarparwr gofal sylfaenol sydd wedi llunio adroddiad o dan adran 5 mewn cysylltiad â darparu gofal iechyd ar ran Bwrdd Iechyd Lleol gyflenwi'r adroddiad i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn adrodd.

(2) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol y mae adroddiadau wedi eu cyflenwi iddo o dan is-adran (1) lunio crynodeb o'r adroddiadau hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn adrodd.

(3) Rhaid i'r crynodeb—

(a) pennu pa mor aml, yn ystod y flwyddyn adrodd, y mae'r ddyletswydd gonestrwydd wedi dod yn effeithiol mewn cysylltiad â'r gofal iechyd a ddarperir ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol gan ddarparwr gofal sylfaenol,

(b) rhoi disgrifiad byr o'r amgylchiadau y daeth y ddyletswydd yn effeithiol odanynt, ac

(c) disgrifio unrhyw gamau a gymerwyd gan y darparwr gofal sylfaenol gyda golwg ar atal amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**Statws** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2023.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 6. (See end of Document for details)*

**I2** A. 6 mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(e)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 6.